# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# **Awdurdod Heddlu De Cymru**

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 544A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Heddlu De Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys John Herniman, Matthew Coe, Andy Bruce a Julie Owens.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol | 6 |
| Cafodd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2011-12 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol | 6 |
| Cyflawnodd yr Awdurdod ei gyllideb refeniw ar gyfer 2011-12 ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd o'i flaen | 8 |
| Mae gan yr Awdurdod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol | 9 |
| Roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad | 9 |
| Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol | 10 |
| Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2011-12 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 10 |
| Caiff pwysau ariannol eu rheoli drwy gynllun hirdymor a ategir gan nifer o fentrau i sicrhau plismona effeithiol | 10 |
| Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer y newid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | 11 |
| Atodiadau | |
| Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu De Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 12 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2011-12 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 13 |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf | 14 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol (yr Adroddiad) hwn i aelodau Awdurdod Heddlu De Cymru (yr Awdurdod) yn crynhoi'r casgliadau o'm harchwiliad ar gyfer 2011-12. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth i aelodau'r Awdurdod am unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'm harchwiliad, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill.
2. Ceir mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn, a chytunir arnynt, gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Grŵp Archwilio a Chraffu. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'w gweld yn Atodiad 3.
3. Gwneir nifer o gyfeiriadau yn yr Adroddiad hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod). Mae'r Cod yn cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff a Archwilir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.
4. Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar eich risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r gwaith archwilio wedi'i strwythuro ar sail elfennau allweddol fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod. Mae Amlinelliad o Archwiliad 2012 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig, sef £82,415 (ynghyd â TAW), a bydd y ffi derfynol yn unol â'r ffi arfaethedig.
5. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod adnoddau'r Awdurdod, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u defnyddio'n gywir ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol yn 2011-12:
   - cafodd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2011-12 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - cyflawnodd yr Awdurdod ei gyllideb refeniw ar gyfer 2011-12, ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd o'i flaen;
   - roedd gan yr Awdurdod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad.
6. Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol:
   - roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2011-12 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
   - caiff pwysau ariannol eu rheoli drwy gynllun hirdymor a ategir gan nifer o fentrau i sicrhau plismona effeithiol;
   - mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer y newid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.
7. Cytunwyd ar yr Adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr, a'r Prif Swyddog Ariannol/Cyfarwyddwr Cyllid a swyddogion perthnasol eraill. Caiff yr Adroddiad ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2012 a chaiff copi ei roi i bob aelod o'r Awdurdod.

8. Fy nod yw darparu archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Awdurdod ei hun. Rwyf yn cydnabod pa mor werthfawr yw eich cydweithrediad a'ch cymorth er mwyn cyrraedd y nod hwn a hoffwn ddiolch i chi am y cymorth a'r cydweithrediad a roddwyd yn ystod yr archwiliad.



John Herniman
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

Dyddiad: 22 Hydref 2012

# Adroddiad manwl

## Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol

9. Y datganiadau ariannol yw'r ffordd hanfodol i'r Awdurdod roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.
10. Fel archwilydd allanol yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd yn rhoi datganiad cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn.

### Cafodd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2011-12 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

11. Cafodd datganiadau ariannol drafft yr Awdurdod eu paratoi a'u cymeradwyo cyn 30 Medi 2012, yn unol â gofynion Rheoliad Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010.
12. Mae awdurdodau'r heddlu yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.
13. Mae'n ofynnol i mi o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r ‘rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu’ (yr Awdurdod) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon.
14. Cyflwynais adroddiad ar y materion hyn i gyfarfod y Grŵp Archwilio a Chraffu ar 17 Medi 2012 a hefyd i gyfarfod yr Awdurdod llawn ar 24 Medi 2012. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilwyr |
|---|---|
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol yr endid. | Nid oedd gennym bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol. Nodwyd rhai meysydd gennym lle y gellid gwella'r cyfrifon a phrosesau archwilio a byddwn yn gweithio gyda'r rheolwyr i egluro papurau gwaith a'u symleiddio ar gyfer 2012-13. |
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | Nid oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i adroddiad yr archwilydd. |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Roedd dau gamddatganiad nas cywirwyd yn y datganiadau ariannol:<br>• Mae £0.465 miliwn o ran cyllid PCSO y mae'r Swyddfa Gartref bellach wedi cadarnhau na chaiff ei adfachu wedi'i gynnwys o dan credydwyr. O ganlyniad, caiff y swm o dan credydwyr ei leihau a cheir cynnydd o £0.465 miliwn o dan incwm.<br>• Gwnaed darpariaethau priodol ar gyfer gordaliadau a wnaed ar 15 o hawliadau yswiriant posibl. Cafwyd pedwar hawliad arall ar ôl cyflwyno'r cyfrifon drafft ond ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ychwanegol. O ganlyniad, byddai darpariaethau a gwariant yn cynyddu £0.3 miliwn.<br>Effaith net y ddau addasiad hwn fyddai cynnydd o £0.165 miliwn i'r gwarged refeniw a'r gronfa gyffredinol. Gan fod y ddwy eitem wedi codi ar ôl cyflwyno'r cyfrifon drafft ac nad ydynt yn berthnasol i'r cyfrifon, ni addasodd y rheolwyr y cyfrifon. Cytunodd yr Awdurdod â dull gweithredu'r rheolwyr a chadarnhawyd hyn yn eu Llythyr Sylwadau. Ni chafwyd unrhyw effaith ar y farn archwilio ddiamod. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol nad oeddem wedi hysbysu'r Awdurdod ohonynt eisoes. Fodd bynnag, nodwyd nifer o fân feysydd i'w gwella gennym, er enghraifft, o ran rheolaethau asedau sefydlog, y rhoddwyd gwybod i'r rheolwyr amdanynt. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Ni chododd unrhyw faterion. |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilwyr |
|---|---|
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar ddau fater arall i'r Awdurdod:<br>• Nodwyd gennym yn ystod blynyddoedd blaenorol na chytunwyd ar y ffordd y caiff cyfran yr Awdurdod o incwm, gwariant ac asedau a rhwymedigaethau Awdurdodau Heddlu Cymru ei dyrannu. Yn lle hynny, gwnaeth pob awdurdod heddlu gynnwys y trafodion gwirioneddol a'r datgeliadau manwl sy'n gysylltiedig ag Awdurdodau Heddlu Cymru yn ei ddatganiadau ariannol ar gyfer 2010-11. Nid oedd y sefyllfa wedi newid ar gyfer 2011-12 ac felly nid oed effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.<br>• Cynhwysodd yr Awdurdod ddarpariaeth newydd o £0.4 miliwn yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â hawliadau a reolwyd yn flaenorol gan Municipal Insurance Limited. Cydnabuwyd hawliadau yn y gorffennol fel rhwymedigaeth wrth gefn ond yn dilyn dyfarniad diweddar gan yr Uchel Lys a chyngor arbenigol wedi'i ddiweddaru, gwnaed darpariaeth ar gyfer 25 y cant o'r rhwymedigaeth a allai ddeillio pe rhoddwyd y cynllun ar waith. Mae'r penderfyniad hwn yn rhesymol a bydd angen ei adolygu'n barhaus wrth i'r sefyllfa ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf. |

15. Ar 26 Medi 2012, rhoddais fy marn ar gyfrifon yr Awdurdod. Deuthum i'r casgliad fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2012 ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion a'i lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

16. Rydym hefyd wedi cwblhau'r archwiliad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, ac yn dilyn hynny cyflwynwyd y ffurflen wedi'i harchwilio i dîm archwilio canolog Swyddfa Archwilio Cymru ar 27 Medi 2012, a oedd cyn y dyddiad gofynnol. Roedd y ffurflen wedi'i llunio'n briodol ac nid oedd unrhyw faterion o bwys i gyflwyno adroddiad arnynt.

## Cyflawnodd yr Awdurdod ei gyllideb refeniw ar gyfer 2011-12, ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd o'i flaen

17. Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw a pharhaodd hyn yn 2011-12. Yn erbyn gofyniad cyllideb refeniw o £257.3 miliwn ar gyfer y flwyddyn, cofnododd yr Awdurdod danwariant o £1.6 miliwn, o ganlyniad i ddychwelyd buddsoddiadau o fanciau Gwlad yr Iâ. Trosglwyddwyd y swm hwn i'r cronfeydd wrth gefn i gefnogi gwariant presennol yn ystod y flwyddyn gyfredol. Cynyddodd y cynnydd o £1.6 miliwn i'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn y cyfanswm a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2012 i £7.3 miliwn. Mae hyn yn parhau i ddod â balans y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn agosach at y targed a bennwyd gan yr Awdurdod, sef tri y cant o'r gyllideb refeniw crynswth, sy'n cyfateb i tua £8.5 miliwn.

18. Mae'r Awdurdod yn parhau i gael adroddiadau rheolaidd gan y Prif Swyddog Cyllid/Cyfarwyddwr Cyllid ar wariant a'r sefyllfa yn erbyn y gyllideb drwy'r Grŵp Monitro Perfformiad. Dangosodd y sefyllfa a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2012 fod £19 miliwn o arbedion eisoes wedi'i gyflawni gan Project Reform yn erbyn targed diwedd y flwyddyn o £14.7 miliwn ar gyfer 2011-12. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu sefyllfa'r Awdurdod, a'i gyrff dilynol, er mwyn ymateb i heriau ariannol a heriau gweithredol ac anweithredol yn y dyfodol sy'n deillio o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ym mis Hydref 2010.

## Mae gan yr Awdurdod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

19. Mae gan yr Awdurdod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol sy'n lleihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Daeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad yn ei adroddiad blynyddol, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Awdurdod Heddlu De Cymru system reolaeth fewnol gyffredinol gadarn. Ar y cyfan, roedd hyn yn darparu lefel ddigonol o sicrwydd, gyda'r rhan fwyaf o'r systemau a archwiliwyd yn darparu lefel sylweddol neu ddigonol o sicrwydd.

20. Yn benodol, deuthum i'r casgliadau canlynol:

- fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol ac felly roedd yn bosibl i ni ddibynnu ar ei waith, yn ôl y bwriad;
- cafwyd bod y trefniadau ar waith ar gyfer sicrhau mai dim ond lle bo darpariaeth benodol iddo ymgymryd â thrafodion y gwnaeth yr Awdurdod hynny a'u bod wedi parhau i weithredu'n effeithiol;
- roedd y trefniadau ar gyfer atal a chanfod achosion perthnasol o dwyll a llygredd yn gweithredu'n effeithiol.

## Roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad

21. Roedd fy adolygiad o systemau ariannol yr Awdurdod yn cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig. Lle roedd yn briodol, roeddem yn chwilio am sicrwydd bod rheolaethau allweddol y systemau pwysig hyn yn gweithredu'n effeithiol, naill ai drwy gynnal profion penodol o'r broses o'u gweithredu, neu drwy ddibynnu ar waith y gwasanaeth archwilio mewnol.

22. Deuthum i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Mae rhai mân feysydd ar gyfer gwella a drafodwyd gyda'r rheolwyr ac mae camau gweithredu priodol eisoes yn cael eu hystyried a'u cymryd. Caiff y Grŵp Archwilio a Chraffu, sy'n monitro'r broses weithredu, ei hysbysu o bob argymhelliad a wneir gan y gwasanaeth archwilio Mewnol ac Allanol, a hynny gan reolwyr. Nid oes materion penodol y mae angen i mi dynnu sylw'r aelodau atynt.

# Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

## Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2011-12 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

23. Wrth archwilio cyfrifon yr Awdurdod bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun ei fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghasgliad ffurfiol ar drefniadau Gwerth am Arian yr Awdurdod ar gyfer 2011-12 yn Atodiad 1.
24. Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon blynyddol, mae ffynonellau pwysig eraill o sicrwydd wedi deillio o waith perfformiad ac arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.
25. Yr Awdurdod oedd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith, rwyf wedi gwerthuso systemau'r Awdurdod yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y dull gweithredu hwn yn fanwl yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith ac arwyddocâd y bylchau hynny.
26. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'm gwaith yn y maes hwn ar gyfer 20-11-12 yr hoffwn dynnu eich sylw atynt.

## Caiff pwysau ariannol eu rheoli drwy gynllun hirdymor a ategir gan nifer o fentrau i sicrhau plismona effeithiol

27. Roedd ein rhaglen waith a oedd yn gyson â rhaglen waith HMIC yn cynnwys cynnal adolygiad ar y cyd i ganfod a yw rhaglen arbedion yr Heddlu a'r Awdurdod yn cyflawni newidiadau cadarnhaol a mesuradwy tuag at wasanaeth heddlu cynaliadwy. Ein casgliad cyffredinol oedd y caiff toriadau ariannol eu rheoli drwy gynllun hirdymor a'u hategu gan nifer o fentrau i sicrhau plismona effeithiol. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - mae strategaeth ar waith i ymdopi â thoriadau ariannol a datblygwyd prosiect trawsnewid i sicrhau y gall yr Heddlu roi ei gynllun pum mlynedd ar waith;
    - er y bydd nifer y swyddogion a'r staff yn lleihau, mae camau ar waith i drefnu'r gweithlu mewn ffordd fwy effeithiol gan gynnwys defnyddio technoleg symudol i helpu'r Heddlu i ddefnyddio swyddogion ac aelodau o staff yn fwy effeithiol;
    - mae'r Heddlu yn gwneud arbedion, yn enwedig drwy gydweithredu, ac mae'n datblygu cyfleoedd pellach i gydweithio a gwneud arbedion yn yr hirdymor;
    - mae lefelau troseddu yn gostwng ac mae mwy o ddioddefwyr troseddau yn fodlon â'r gwasanaeth;

- mae'r adolygiadau a gynhaliwyd gan HMIC yn ategu fy nghasgliadau am y trefniadau i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol[1].

## Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer y newid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

28. Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a gaiff ei ethol yn uniongyrchol yn disodli Awdurdod yr Heddlu ym mis Tachwedd 2012 ac mae'n bwysig sicrhau bod y gwaith cynllunio a'r trefniadau trosglwyddo yn effeithiol. Rhan o'n gwaith eleni yw monitro'r cynnydd a wneir a chredaf fod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer y newid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - Mae rhaglen rheoli trawsnewid ar waith ar gyfer trosglwyddo i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'n nodi materion a risgiau sy'n codi.
    - Mae'r Heddlu yn arwain y gwaith o ddatblygu datganiad o egwyddorion a threfniadau llywodraethu ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl. Caiff y fenter ei rhoi ar waith yn genedlaethol gan alluogi i benderfyniadau dilys gael eu gwneud o'r cychwyn cyntaf pan gaiff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ei benodi.
    - Ceir trefniadau priodol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, rhanddeiliaid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref er mwyn sicrhau y caiff materion plismona sy'n effeithio ar Gymru eu hystyried;
    - Rhoddwyd fframwaith  safonol ar waith gydag awdurdodau eraill yr heddlu yng Nghymru ar gyfer newid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.
    - Mae swyddogion yr Awdurdod, aelodau a staff yr heddlu yn ymateb mewn ffordd adeiladol a chyfrifol i'r broses newid.
    - Mae adolygiad a gynhaliwyd gan HMIC yn ategu fy nghasgliadau am y trefniadau ar gyfer newid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu[2].
29. Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu nifer o opsiynau ar gyfer sut y gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phanel yr Heddlu a Throseddu weithredu o'r cychwyn cyntaf, er nad yw'r trefniadau wedi'u cwblhau eto. Fodd bynnag, o dan delerau gweithio sydd wedi'u diwygio cymaint, rwyf yn cydnabod bod yr Awdurdod, yr Heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn wynebu cyfnod arbennig o heriol a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd a gweithio gydag HMIC i gynnal gwaith archwilio perfformiad yn 2012-13. Mantais y dull gweithredu cydgysylltiedig rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac HMIC yw sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn osgoi dyblygu a hyrwyddo trefniadau rhannu rhwng ein priod sefydliadau. Mae ein dull gweithredu hefyd yn helpu i lywio ein rhaglenni gwaith ac yn helpu i sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n brydlon mewn ffordd weithredol a sicrhau bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu hystyried.

[1] HMIC Policing in austerity: one year on, Goffennaf 2012
[2] HMIC Preparing for Police and Crime Commissioners, Gorffennaf 2012

# Atodiad 1

## Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu De Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Mae gennyf gyfrifoldeb o dan Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i ddod i'r casgliad, o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod, p'un a wyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ganddo ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym Mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os oes materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath.

**Casgliad**

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2011-12 i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw.

Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

Ar sail Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2011-12, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd, ac yn gyfyngedig iddo, rwyf wedi codi materion amrywiol, ac wedi gwneud argymhellion i wella trefniadau'r Awdurdod. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn fy Adroddiad Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod.

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett<br>Archwilydd Penodedig<br>22 Hydref 2012 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd CF11 9LJ |

# Atodiad 2

## Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2011-12 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd o gyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro perfformiad a chraffu arno, er mwyn nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, i weithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni yn ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer gweithredu a, lle y bo angen, gyflwyno adroddiad i aelodau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 3

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Amlinelliad o Archwiliad 2012 | Chwefror 2012 |
| Darparu gwasanaeth heddlu ar ei newydd wedd | Chwefror 2012 |
| Adroddiadau Diweddaru Archwiliad Allanol | Ionawr, Ebrill, Gorffennaf, Medi 2012 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Medi 2012 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol | Hydref 2012 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk